Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol ar gyfer Ffermio Dwys
Cynllun Sicrwydd Moch a Dofednod

Mehefin 2015

OGN 110

Perchennog y Ddogfen: Arweinydd y Sector – Ffermio Dwys

Hanes Fersiynau:

Fersiwn y Ddogfen	Dyddiad cyhoeddi	Crynodeb o'r Newidiadau
1.0	Mehefin 2015	Creu'r ddogfen

Dyddiad Adolygu: Mawrth 2016

Hysbysiad

Mae hawlfraint ynghlwm wrth holl nodiadau canllaw Cyfoeth Naturiol Cymru. Sylwch fod yn rhaid cydymffurfio â Datganiad Hawlfraint Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Hysbysiad Ymwadiad Safonol wrth ddefnyddio unrhyw ddeunydd o fewn y ddogfen hon. Gallwch gael copïau o'r rhain gan y Tîm Mynediad at Wybodaeth drwy anfon e-bost at **accesstoinformationteam@naturalresourceswales.gov.uk.** Bydd unrhyw achos o ailddefnyddio'r wybodaeth hon yn ddarostyngedig i Reoliadau Ailddefnyddio Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus 2005. Gallwch gael manylion ynghylch y Rheoliadau hyn gan y Tîm Mynediad at Wybodaeth.

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Ffordd Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP
0300 065 3000 (Llun-Gwen 8am-6pm)
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
© Cyfoeth Naturiol Cymru
Cedwir pob hawl. Ni all y ddogfen hon ond gael ei hatgynhyrchu gyda chaniatâd ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae’r nodyn canllaw hwn yn disgrifio’r Cynllun Sicrwydd Moch a Dofednod a sut y gall fferm ymuno â’r cynllun

Mae’r Cynllun Gwarantu Moch a Dofednod yn gwaredu pob biwrocratiaeth ac yn lleihau’r taliadau a godir ar ffermwyr. Dyma gynllun ar gyfer cynhyrchwyr moch a dofednod sy’n cyflawni safon uchel o safbwynt cydymffurfio â’u trwydded amgylcheddol, a hynny’n unol â’r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol a adwaenid ynghynt fel y Rheoliadau Atal a Rheoli Llygredd.

Mae pob fferm sy’n ymuno â’r Cynllun yn arbed oddeutu £900 y flwyddyn oddi ar y taliadau a godir gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac ni fydd Cyfoeth Naturiol Cymru ond yn ymweld â’r fferm unwaith bob tair blynedd. Bydd Cyrff Ardystio yn archwilio ffermydd sy’n aelodau o’r cynllun ac yn casglu data ar ein rhan. Lle y bo’n bosibl, byddant yn gwneud hynny tra’u bod yn cynnal archwiliad ynghylch cynllun arall, fel Cynllun Sicrwydd y Tractor Coch neu God Ymarfer y Llew, er mwyn lleihau ymhellach nifer yr ymweliadau â ffermydd.

Cynllun gwirfoddol yw hwn. Os byddwch yn dewis peidio ag ymuno â’r Cynllun byddwn yn parhau i archwilio eich fferm a chodi’r taliadau arferol arnoch. Gallwch wrthod ymuno ac yna ymuno'r flwyddyn wedyn os bydd eich fferm yn parhau’n gymwys.
.

Sut y mae’r cynllun yn gweithio

Unwaith y bydd fferm yn ymuno â’r cynllun bydd yn rhoi copi i’r Corff Ardystio enwebedig o’r drwydded ac unrhyw amrywiadau, camau gorfodi a hysbysiadau ffurfiol sy’n berthnasol o safbwynt sicrhau cydymffurfiaeth. Bydd y Corff Ardystio yn cynnal un ymweliad am bob blwyddyn y bydd y fferm yn parhau’n rhan o’r cynllun. Byddwn yn ymweld â fferm unwaith bob tair blynedd. Caiff ffermydd nad ydynt yn rhan o’r cynllun eu harchwilio gennym o leiaf unwaith y flwyddyn.

Rydym yn parhau’n gyfrifol am reoleiddio ond bydd yr wybodaeth y bydd y Corff Ardystio yn ei chasglu ar ein rhan yn ein helpu i asesu a yw fferm yn cydymffurfio â’i thrwydded. Yn syth ar ôl yr archwiliad bydd y Corff Ardystio yn cyflwyno’r wybodaeth y mae wedi’i chasglu a bydd yn rhoi’r un wybodaeth i’r ffermwr. Bydd eich Swyddog yr Amgylchedd neu bwynt cyswllt eich ardal yn ysgrifennu atoch er mwyn eich hysbysu ynghylch canlyniadau’r archwiliad.

Gallwch barhau i gysylltu â’ch Swyddog yr Amgylchedd lleol ar unrhyw adeg i gael cyngor, ac yn arbennig os ydych yn ystyried cyflwyno unrhyw newidiadau ar eich fferm.

Y manteision sydd ynghlwm wrth ymuno â’r cynllun

Bydd ymuno â’r cynllun yn golygu llai o ymweliadau blynyddol â’ch fferm, a fydd yn arwain at lai o darfu arnoch. Trwy leihau nifer yr ymweliadau y mae angen i ni eu cynnal, gallwn leihau’r taliad cynnal trwydded tua £900 y flwyddyn. Os ydych yn aelod o gynllun arall, fel Cynllun Sicrwydd y Tractor Coch neu God Ymarfer y Llew, bydd y Corff Ardystio yn cynnal y ddau archwiliad ar yr un pryd lle y bo’n bosibl. Bydd y Corff Ardystio yn codi tâl arnoch am ei ymweliad. Mater i bob Corff Ardystio unigol yw’r tâl a godir ond mae’n debygol o fod lawer yn llai na’n lleihad ni yn y tâl.

Pwy all ymuno â'r cynllun?

I fod yn gymwys i ymuno â'r cynllun mae'n rhaid i fferm:
- fod wedi cael o leiaf ddau archwiliad ers cael ei chymeradwyo
- cael ei rheoli'n dda, gan ddangos cydymffurfiaeth ag amod 1.1 y drwydded
- gweithredu holl amodau gwella'r drwydded, yn unol â'r amserlen gymeradwy

I fod yn gymwys i ymuno â'r cynllun mae'n rhaid i fferm beidio â:
- chael amod gwella sy'n gysylltiedig ag allyriadau amonia
- bod yn destun unrhyw gamau gorfodi sy'n weddill gan Cyfoeth Naturiol Cymru neu ei ragflaenydd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (gweler isod)
- cael ei gweithredu gan berson sydd wedi cael ei ddyfarnu'n euog yn ystod y tair blynedd diwethaf, a hynny mewn perthynas â'r fferm honno, mewn achos a gyflwynwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru neu Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, neu sydd wedi derbyn rhybudd ffurfiol mewn perthynas â throsedd o'r fath yn y ddwy flynedd ddiwethaf
- bod â mwy na deg pwynt yn y Cynllun Dosbarthu Cydymffurfiaeth yn y flwyddyn galendr ddiwethaf
- bod ag unrhyw faterion yn ymwneud ag amwynder nad ydynt wedi'u datrys neu fod yn Safle o Ddiddordeb Mawr i'r Cyhoedd
- bod ag ôl-ddyledion o safbwynt taliadau'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol

Y diffiniad o gamau gweithredu sy'n weddill

Camau gweithredu sy'n weddill yw:
- unrhyw rybuddion ffurfiol sydd wedi'u cynnig ond heb eu derbyn
- unrhyw erlyniadau sydd yn yr arfaeth neu sydd wedi dechrau ond un ai:
  - a) heb fynd i'r llys eto
  - b) wedi mynd i'r llys ond mae apêl ynghylch y dyfarniad
- unrhyw hysbysiadau sydd wedi'u dosbarthu ond nad yw pobl wedi cydymffurfio'n llwyr â hwy
- camau a arweiniodd at dderbyn llythyr rhybudd, gan gynnwys aros am benderfyniad ynghylch camau gorfodi
- ymgymryd ag ymateb gorfodi
- gweithredu cynllun ar ôl collfarn

Nid yw'r canlynol yn gamau gweithredu sy'n weddill:
- unrhyw erlyniad sydd wedi'i ddwyn gerbron y llys ac unrhyw ddirwyon a chostau sydd wedi'u derbyn ac nid yw'r dyfarniad yn destun apêl
- unrhyw rybudd ffurfiol sydd wedi'i gynnig a'i dderbyn
- unrhyw hysbysiadau sydd wedi'u cyhoeddi a chydymffurfiaeth lwyr â'r amodau ynddynt

Sut y gallwch ymuno â'r cynllun

Rydym yn asesu ffermydd a ganiateir nad ydynt yn aelodau o'r Cynllun ym mis Ionawr bob blwyddyn er mwyn gweld a ydynt yn gymwys. Byddwn yn ysgrifennu at weithredwyr y ffermydd cymwys ym mis Chwefror/Mawrth er mwyn eu gwahodd i ymuno â'r cynllun ar ddechrau'r flwyddyn newydd, sef mis Ebrill. Os ydych eisiau ymuno â'r cynllun bydd angen i chi gysylltu ag un o'r Cyrff Ardystio cymeradwy a enwir yn y llythyr gwahoddiad. Bydd y

Cyrff Ardystio yn rhoi rhagor o fanylion i chi ynghylch y gweithdrefnau a'r taliadau perthnasol.

Nid oes angen i chi fod yn aelod o gynllun sicrwydd fferm arall i ymuno â'r cynllun hwn Ni all fferm ond ymuno ym mis Chwefror/Mawrth y flwyddyn pan fydd yn gymwys fel ei bod yn barod ar gyfer blwyddyn nesaf y cynllun ym mis Ebrill. Gallwch ddewis gadael y cynllun hanner ffordd drwy'r flwyddyn. Bydd yn rhaid i chi dalu'r tâl cynhaliaeth heb ei achredu, sy'n dâl uwch, ar sail pro-rata o'r dyddiad y byddwch yn gadael y cynllun.

Nid oes angen i chi adnewyddu eich aelodaeth o'r cynllun bob blwyddyn - bydd eich fferm yn parhau'n aelod o'r cynllun cyn belled nad yw'n bodloni unrhyw un o'r meini prawf ar gyfer gwahardd, neu os byddwch yn ein hysbysu ni neu eich Corff Ardystio o'ch bwriad i adael y cynllun. Oni bai eich bod yn dymuno newid eich Corff Ardystio nid oes yn rhaid i chi gysylltu â'ch Corff Ardystio cyn blwyddyn nesaf y cynllun. Bydd y Corff yn cysylltu â chi i ofyn am eich taliad blynyddol.

Os yw eich fferm wedi'i throsglwyddo i chi gall barhau'n aelod o'r cynllun cyn belled â bod y ddau ymweliad nesaf yn cael sgôr o 10 pwynt neu lai yn y Cynllun Dosbarthu Cydymffurfiaeth. Bydd eich fferm yn parhau'n aelod o'r cynllun os byddwch yn amrywio eich trwydded.

Os nad oes gan eich fferm unrhyw dda byw a'i bod yn wag nid oes angen ymweld â hi. Risg amgylcheddol bach iawn sydd ynghlwm wrth fferm wag felly gall barhau'n aelod o'r cynllun, gan dalu'r tâl cynhaliaeth ond ni fydd unrhyw un yn ymweld â hi. Mae'n rhaid i chi ein hysbysu ar unwaith os byddwch yn prynu stoc fel y gall archwiliadau ailddechrau.

Canlyniadau ymweliadau â ffermydd

Byddwn yn ysgrifennu atoch er mwyn eich hysbysu ynghylch canlyniadau'r ymweliad. Os yw fferm yn cydymffurfio â'i thrwydded ni chaiff unrhyw gamau pellach eu cymryd hyd yr archwiliad nesaf (oni bai yr adroddir ynghylch cwyn neu ddigwyddiad a fydd yn golygu bod angen trefnu ymweliad).

Os nad yw'r fferm yn cydymffurfio â rhai agweddau ar y cynllun, ond eich bod eisoes wedi cytuno ar gynllun cywiro â'ch Swyddog yr Amgylchedd, ni fydd angen i chi gymryd unrhyw gamau yn sgil ymweliad y Corff Ardystio. Byddwn yn ysgrifennu atoch er mwyn cadarnhau hyn. Os nad yw'r cynllun cywiro eisoes yn ymdrin ag unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth, byddwn yn nodi'n benodol yr wybodaeth sydd ei hangen. Ar ôl asesu'r wybodaeth a gaiff ei chasglu gan y Corff Ardystio efallai y byddwn yn penderfynu bod angen ymweld â'r fferm. Er enghraifft, er mwyn mynd i'r afael â materion brys yn ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth a digwyddiadau posibl/gwirioneddol. Caiff canlyniadau pob archwiliad eu nodi ar y gofrestr gyhoeddus.

Gall fferm gael ei gwahardd o'r cynllun hanner ffordd drwy'r flwyddyn

Gall fferm gael ei gwahardd o dan yr amodau canlynol:

- os na fydd yn cydymffurfio â hysbysiad gorfodi
- os caiff ei herlyn gan Cyfoeth Naturiol Cymru
- os bydd yn derbyn rhybudd ffurfiol am dorri amodau
- os na fydd yn talu'r taliadau sydd ynghlwm wrth y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol

- os na fydd ymweliad blynyddol gan Gorff Ardystio neu os na fydd yn cydweithredu'n rhesymol â'r Corff Ardystio, er enghraifft, er mwyn trefnu ymweliadau, rhoi mynediad at ardaloedd a chofnodion perthnasol, neu os bydd yn gwrthod talu am ymweliad y Corff Ardystio
- os na fydd yn gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth o fewn amserlenni y cytunir arnynt (gall Cyfoeth Naturiol Cymru arfer disgresiwn o dan amgylchiadau eithriadol) neu os bydd yn gwrthod cytuno ar amserlenni rhesymol.

Gall fferm gael ei gwahardd os bydd yn:

- sgorio mwy 30 o bwyntiau o dan y Cynllun Dosbarthu Cydymffurfiaeth yn ystod ymweliad gan Gorff Ardystio neu Swyddog yr Amgylcheddol, neu os bydd yn torri mwy na 10 amod mewn ymweliad os oes methiant difrifol o amod 1.1 trwydded
- cael ei dynodi'n Safle o Ddiddordeb Mawr i'r Cyhoedd oherwydd ei fod yn ennyn llawer o ddiddordeb ymysg y cyhoedd (boed am resymau amgylcheddol, cyfreithiol neu resymau eraill)
- sgorio mwy na 10 pwynt o dan y Cynllun Dosbarthu Cydymffurfiaeth fesul ymweliad yn y ddau ymweliad nesaf (un gan y Corff Ardystio, un gan Swyddog yr Amgylchedd) ar ôl i'r fferm gael ei throsglwyddo o un gweithredwr i weithredwr arall.

Os caiff fferm ei gwahardd o'r cynllun hanner ffordd drwy'r flwyddyn bydd yn dychwelyd i'r tâl cynhaliaeth heb ei achredu o'r dyddiad gwahardd. Ni fydd modd i'r fferm ailymuno â'r cynllun, ac ni fydd yn gymwys i wneud hynny, hyd nes y bydd Swyddog yr Amgylchedd wedi cynnal dau ymweliad arall a'i fod yn fodlon bod y fferm yn addas i ailymuno â'r cynllun.

Rhagor o wybodaeth

Dechreuodd y cynllun ar 1 Ebrill 2010. Fe'i datblygwyd gydag Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr a Chynllun Sicrwydd y Tractor Coch (a adwaenid ynghynt fel y Safonau Sicrwydd Bwyd) gyda chefnogaeth gan y Gymdeithas Foch Genedlaethol, Cyngor Dofednod Prydain a Chyngor Diwydiant Wyau Prydain.

Cysylltwch â'ch Swyddog yr Amgylchedd i wybod rhagor am ymuno â'r cynllun. Gallwch lawrlwytho OGN 111 – Safonau Archwilio Cyrff Ardystiedig Moch a Dofednod, y bydd y Corff Ardystio yn ei ddefnyddio yn ystod eich ymweliad, o'r tudalennau ffermio dwys ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru (www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk).